

# ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Mai 2015



## Canlyniadau Chwaraeon Ysgol Eifionydd

Llongyfarchiadau i dîm rygbi merched blwyddyn 8,9 a 10 sydd wedi ennill cystadleuaeth rygbi ysgolion Gwynedd a Môn am yr ail flwyddyn yn olynol. Llwyddodd y tîm i guro Ysgol Botwnnog 20 – 0 yn y gêm gyn derfynol a churo Ysgol Dyffryn Ogwen 15 i 0 yn y gêm derfynol. Cafodd Cassia Pike ei henwebu fel chwaraewraig gorau y twrnament.



Mae tîm rygbi blwyddyn 9 a 10 Ysgol Eifionydd wedi llwyddo i gyrraedd y gêm derfynol Cwpan Ysgolion Eryri. Mae'r tîm wedi ennill Ysgol y Gader 42 i 12 ac Ysgol Tryfan 35 i 0. Bydd y tîm yn chwarae Ysgol John Bright yn y gêm derfynol ddechrau mis Mai. Dymuniadau gorau i'r tîm.



**Llongyfarchiadau i Gwion Jones sydd ym mlwyddyn 8 Ysgol Eifionydd sydd wedi llwyddo i gael ei ddewis i gynrychioli tîm hoci Gogledd Cymru. Llongyfarchiadau Gwion.**



**Mae Medi Harris sydd ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Eifionydd â dyfodol disglair o'i blaen yn y byd nofio. Llwyddodd yn ddiweddar i ennill 9 cystadleuaeth yng Nghystadleuaethau Nofio Cymru.**



Mae tîm pêl droed merched BI 9 a 10 wedi llwyddo i gyrraedd gêm derfynol Ysgolion Cymru am y pedwerydd tro yn olynol. Mae'r tîm wedi llwyddo i guro 7 gêm i gyrraedd y gêm derfynol a gynhaliwyd ar gaeau pêl droed Aberystwyth. Er fod Ysgol Eifonydd wedi curo'r gwpan am y 3 mlynedd diwethaf, yn anffodus nid oeddent yn gallu ennill y tro hyn yn erbyn ysgol Uwchradd Caerdydd.



Bu Shannon Dukes a Cassia Pike mewn twrnament yn Ynysoedd Faroe wythnos diwethaf yn cynrychioli tîm pêl droed merched Cymru dan 15. Mae'r ddwy hefyd yn cynrychioli tîm Cymru dan 17 mewn twrnament yng Nghaerdydd yr wythnos nesaf. Dipyn o gamp i genod pedair ar ddeg oed!

Llongyfarchiadau mawr.



Llwyddodd nifer o ddisgyblion Ysgol Eifionydd i ennill neu ddod yn ail mewn amryw o gystadlaethau yn Athletau Meirionnydd a Dwyfor. Mae'r unigolion yn mynd i Athletau Eryri i gystadlu ar y 7fed o Fai. Pob hwyl iddynt.



Daeth llwyddiant i ran Cari Davies wrth iddi gael ei dewis i gynrychioli tîm hoci dan 16oed Cymru. Pob hwyl i ti Cari!



Gyda diolch mawr i Mr. Nigel Hughes am ei luniau arbennig.

### **Rhaglen deledu - Fi yw'r Bos**

Ym mis Mawrth bu tri disgybl o flwyddyn 8 yn cystadlu ar raglen deledu newydd o'r enw 'Fi yw'r Bos' ar S4C. Einion Owen, Osian Jones a Millie Nunn-Booton oedd y tri lwcus a ddaeth i'r brig trwy broses o gyfweiliadau gan gwmni teledu 'Boom Plant' sy'n cynhyrchu'r rhaglen.

Darllledwyd y rhaglen ar b'nawn dydd Mawrth y 31ain o Fawrth. Roedd y tri yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn cyflawni cyfres o dasgau yng Ngwesty Portmeirion yn dilyn hyfforddiant gan staff y gwesty a chreu pwdin hufen ia a pistachio.

Yn gwylio pob symudiad ganddynt ac yn rhoi ei barn broffesiynol ar eu perfformiad roedd Elliw Williams o gwmni 'Atom' o Gaernarfon. Roedd hi'n bles iawn gyda perfformiad y tri ohonynt ac yn eu canmol yn fawr, ond roedd rhaid cael un enillydd a Millie ddaeth i'r brig.

Bu Millie yn cystadlu yn y rownd derfynol yng Nghaerdydd ym mis Ebrill yn erbyn saith o ddisgyblion eraill o ysgolion ledled Cymru. Caiff y rhaglen hon ei darlledu ym mis Mai. Pob lwc Millie!



**Osian Jones,  
Millie Nunn-Booton  
ac Einion Owen.**

### **Taith Blwyddyn 9 a 10 i Ffrainc**

Yn ystod gwyliau'r Pasg aeth criw o 67 o ddisgyblion i Ffrainc a dyma gofnod un o'r disgyblion am y daith.

Cyffro llwyr oedd cyrraedd yr ysgol nos Wener, y seithfed ar hugain o Fawrth. Y cês wedi ei bacio a'r da-das yn y bag! Siwrne o un awr ar bymtheg o'n blaenau, gyda un stop sydyn am dri y bore, cyn dal y fferi am saith y bore o Dover. Ar ôl croesi i Calais, siwrne o tua dwy awr wedyn i ymweld â mynwent anferth a chanolfan yn coffau milwyr y rhyfeloedd byd. Cawsom fynd at gofeb anferth o farmor a chael tynnu lluniau cyn y siwrne i Baris. Ddwyr awr a hanner yn ddiweddarach, cyrraedd Paris yn un darn wedi blino'n lân, ond wedi synnu gyda chymaint o adeiladau hardd a phoblogaidd – Stade de France (stadiwm rygbi Ffrainc) Arc de Triumph, y Tŵr Eiffel a llawer o siopau drud. Cawsom swper mewn bwyty Eidalaidd cyn mynd i'r gwesty oedd rhyw ugain munud o Baris. Mor braf oedd cael dad-bacio'r cês, cael cawod a gwely cynnar y noson honno ar ôl siwrne faith!

Codi'n fuan fore trannoeth i gael brecwast erbyn wyth o'r gloch i fynd i farchnad ym Mharis oedd yn gwerthu pob math o fwydydd. O falwod i fefus, unrhyw beth dan haul! Gerllaw y farchnad roedd siop fechan yn gwerthu melysion a danteithion lu. Llond siop o 'facaroons, siocled ac wyau Pasg. Roedd pawb wedi gwirioni. Ar ôl bore prysur o fwyta, cawsom fynd i weld y Tŵr Eiffel, tynnu lluniau wrth ei ochr a dringo tŵr anferthol Monteparnasse i gael gweld Paris i gyd a dyna i chi olygfa! Ar ôl gwneud hyn, roedd gennym rhyw awr i'w sbario, felly cawsom fynd i siopa mewn grwpiau bychain gydag athro. I swper, cawsom ddewis o fwytai oedd ar un stryd. Dewisais i a fy ffrindiau fwyty Ffrengig hyfryd gyda bwyd blasus iawn. Yn ôl i'r gwesty am ein noson olaf yn Ffrainc ar ôl swper.

Disney! Ar ein diwrnod olaf yn y wlad hardd teithiom tua ugain munud i Barc Disney. Dewisodd rhai fynd i'r Parc ac eraill i'r Stiwdios am y dydd i fwynhau y cyffro, y reidiau a'r ciwio oedd yno! Cawsom ginio mewn bwyty môr lardon a threulio oriau yn mwynhau diwrnod yn llawn hwyl a chwerthin. Teithio wedyn am rhyw ddwy awr i Calais gan ffarfelio â Ffrainc am hanner nos i wynebu'r siwrne erchyll o Calais i Dover yn y gwynt

a'r glaw. Yn ôl a blaen, o ochr i ochr, roedd llawer yn teimlo'n sâl, yn cynnwys fi! Taith dawel ar y bws adref i Borthmadog gan fod pawb yn cysgu. Oriau'n ddiweddarach, cyrraedd yr ysgol yn ddiogel, llwglyd ac wedi blino'n lân!

Hoffwn ddiolch ar ran y disgyblion aeth ar y trip ffantastig i'r athrawon a edrychodd ar ein holau mor dda a'n galluogi i fwynhau a chael hwyl ar y daith. Diolch yn fawr iawn.

Siwan Prys Owen.